Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheolaethau Cyfraith Bwyd Cyffredinol (Diwygiadau ac ati) (Ymadael â'r UE) 2019** |
| **DYDDIAD** | **4 Chwefror 2019** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd** |

**Rheolaethau Cyfraith Bwyd Cyffredinol (Diwygiadau ac ati) (Ymadael â'r UE) 2019**

**Cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n cael ei diwygio**

- Rheoliad (CE) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd sy'n nodi egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn nodi gweithdrefnau yng nghyd-destun materion yn ymwneud â diogelwch bwyd ("Rheoliad Cyfraith Bwyd Cyffredinol")
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 931/2011 ar y gofynion o ran y gallu i olrhain a bennwyd gan Reoliad (CE) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd ar gyfer bwyd sy'n dod o anifeiliaid

**Y gyfraith UE sy'n cael ei dirymu**

- Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 16/2011 sy'n nodi'r mesurau gweithredu ar gyfer y System Rhybuddio Cyflym ar gyfer bwyd a bwyd anifeiliaid

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Bydd yr OS hwn yn cryfhau pwerau gweithredol Gweinidogion Cymru. Bydd yn trosglwyddo pwerau deddfwriaethol presennol y Comisiwn Ewropeaidd dan y Rheoliad Cyfraith Bwyd Cyffredinol i Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru. Bydd hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau, yn amodol ar ddirymiad drwy benderfyniad y Cynulliad Cenedlaethol, i gymhwyso gofynion y gallu i olrhain bwyd i sectorau penodol. Ni fydd yr OS yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

**Diben y diwygiadau**

Diben y diwygiadau yw cywiro diffygion sy'n deillio o'r Deyrnas Unedig (DU) yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE) yn neddfwriaeth yr UE a ddargedwir yn uniongyrchol mewn cysylltiad â diogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid cyffredinol. Bydd y Rheoliadau'n gwneud diwygiadau technegol bach iawn i gyfraith yr UE a ddargedwir yn uniongyrchol heb wneud unrhyw newid sylweddol i lefelau diogelu iechyd pobl neu i safon uchel y bwyd a

bwyd anifeiliaid y mae defnyddwyr yn ei disgwyl o gynhyrchion a gynhyrchir yn ddomestig a chynhyrchion a fewnforir.

Bydd y Rheoliadau'n gwneud cywiriadau technegol megis cael gwared ar gyfeiriadau at sefydliadau'r UE ac Aelod-wladwriaethau eraill a bydd yn diffinio 'trydydd gwledydd' fel unrhyw wlad y tu allan i'r DU.

Mae'r prif gywiriadau a gynigir gan y Rheoliadau hyn yn cynnwys cael gwared ar y darpariaethau deddfwriaethol sy'n sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (EFSA). EFSA yw sefydliad yr UE sy'n gyfrifol ar hyn o bryd am asesu risg/diogelwch bwydydd penodol (e.e. mathau newydd o ychwanegion bwyd) a barn wyddonol ehangach. Os na chytunir ar fargen gyda'r UE, ni fydd y DU yn aelod o EFSA, felly ni fydd y darpariaethau sy'n darparu ar gyfer ei sefydlu bellach yn berthnasol. Bydd cywiriadau i gyfraith arall yr UE a ddargedwir yn uniongyrchol sy'n ymwneud â diogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid yn rhoi swyddogaethau asesu risg presennol EFSA i awdurdod priodol sy'n gweithredu yn y DU.

Bydd y cywiriadau i'r Rheoliad Cyfraith Bwyd Cyffredinol hefyd yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru, mewn perthynas â Chymru, i hyrwyddo'r gwaith o ddatblygu safonau technegol rhyngwladol ar gyfer bwyd a bwyd anifeiliaid, gan gynnwys cydnabod mesurau cyfatebol a chanolbwyntio ar ddatblygu anghenion gwledydd.

Bydd y Rheoliadau hefyd yn gwneud mân newidiadau technegol i Reoliad 931/2011 ar y gallu i olrhain bwyd sy'n dod o anifeiliaid a bydd yn dirymu Rheoliad (UE) Rhif 16/2011 sy'n nodi'r mesurau gweithredu ar gyfer y System Rhybuddio Cyflym ar gyfer bwyd a bwyd anifeiliaid (RASFF). Os na fydd bargen gyda'r UE, ni fydd y DU yn aelod o RASFF, felly bydd y mesurau gweithredu yn amherthnasol.

Gellir gweld yr OS a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi effaith bob diwygiad ar gael yma: https://beta.parliament.uk/work-packages/zXs1Fosv

**Pam rhoddwyd caniatâd**

Nid oes unrhyw wahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru/ASB Cymru a Llywodraeth y DU (ASB y DU) o ran y polisi ar gyfer y cywiriadau. Felly, byddai creu Offerynnau Statudol ar wahân yng Nghymru ac yn Lloegr yn arwain at ddyblygu, a chymhlethu'r llyfr statud heb fod angen. Bydd cydsynio i OS ar gyfer y DU i gyd yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ar draws y DU sy'n hyrwyddo eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod hwn o newid. Dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae ASB Cymru/Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol fod Llywodraeth y DU yn deddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.